Cyllid & Tollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Chwefror 2015 Rhifyn 52

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

## Croeso

Helo a chroeso i rifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr.

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn y rhifyn hwn o'r Bwletin ond efallai y bydd yr erthygl ar dudalen 2 yn enwedig yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ddechrau paratoi eich cyflwyniadau terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaw i ben 5 Ebrill 2015. Mae'n cynnwys newyddion am y 'rhestr wirio diwedd y flwyddyn', ynghyd â rhai awgrymiadau ynglŷn â pharatoi'ch cyflwyniadau terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth ac ychydig o wybodaeth am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud os gwnewch gamgymeriad yn eich cyflwyniad terfynol.

Ceir erthygl ar dudalen 3 sy'n argymell yn gryf y dylai defnyddwyr yr offer TWE Sylfaenol lawrlwytho'r fersiwn diweddaraf mor fuan â phosibl fel y gellir cymhwyso'r diweddariad, a gaiff ei gyhoeddi ddechrau mis Ebrill, yn awtomatig ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau 6 Ebrill 2015.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am nifer o newidiadau sydd newydd gael eu cyflwyno neu sydd ar fin cael eu cyflwyno ac a all gael effaith ar brosesau'ch cyflogres.

Gobeithio y teimlwch fod yr eitemau yn y rhifyn hwn o gymorth ac yn addysgiadol. I sicrhau nad ydych yn colli unrhyw newyddion yn y dyfodol, fe'ch anogaf i ymrestru i dderbyn ein negeseuon e-bost yn rhad ac am ddim. Os gwnewch hynny byddwn yn gallu anfon e-bost atoch bob tro y caiff rhifyn newydd o'r Bwletin ei gyhoeddi.

Ac yn olaf, anelwn at drosglwyddo gwybodaeth glir, gyson ac amserol sy'n addas i gyflogwyr ac sy'n eu cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr neu os hoffech iddo ymdrin â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk. Byddwn yn ddiolchgar iawn i gael eich adborth.

Alison

Alison Bainbridge
Golygydd

### Cynnwys


2 Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn
3 Diweddariadau ar gyfer yr Offer TWE Sylfaenol
3 Ceisiadau ailargraffu am hysbysiad codio P9 ar papur
4 Cyflogaethau dyblyg
5 Pa bryd y caiff taliad ei wneud at ddibenion TWE
6 Rheolau newydd os ydych yn ariannu triniaeth feddygol er mwyn helpu cyflogai i ddychwelyd i'r gwaith
6 Cynnydd yn nhrothwy Benthyciadau Myfyrwyr sy'n gymwys o 6 Ebrill 2015
7 Costau cyflwyno yn dechrau ar 6 Mawrth 2015 ar gyfer cynlluniau TWE sy'n cynnwys 49 neu lai o gyflogeion
8 Dod â Chontractio Allan i ben
9 Mân Fuddiannau – Newidiadau Arfaethedig
9 Ydych chi'n cyflogi unrhyw un o dan 21 oed? Paratowch ar gyfer mis Ebrill
9 Lwfans Cyflogaeth – ydych chi wedi hawlio eto?
10 Diwrnodau cyflog 'ychwanegol' (wythnos 53, 54 neu 56) a thandaliadau o dreth
10 Newidiadau i'r ffordd y rhoddir llyfrynnau slip talu
10 Cyfraddau Taliadau Statudol Newydd
11 Terfyn amser taliadau electronig ar benwythnos
11 Ydyn ni wedi cysylltu â chi ynglŷn â'ch rhif cyfeirnod talu TWE
11 Gwasanaeth talu ar-lein newydd
12 Taliadau Statudol
13 Datganiad newydd sydd ei angen os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall
13 Diweddaru cyfeiriadau cyflogeion
13 Cofrestru awtomatig: ydych chi'n barod?
14 Llinellau cymorth a Llinellau Archebu

# Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn

## Sicrhau bod 2013-2014 yn gyfredol

Mae CThEM yn dechrau paratoi ar gyfer cyflwyniadau taliadau terfynol 2014-2015 a phrosesu ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Os nad ydych wedi anfon unrhyw Ddiweddariadau Blwyddyn Gynharach (EYUs) atom ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014 a bod angen i chi ddiwygio'ch cofnodion, dylech wneud hynny cyn gynted â phosib.

## Nid yw'n ofynnol mwyach i gwblhau Rhestr Wirio Diwedd y Flwyddyn

Mae CThEM wedi cyhoeddi deddfwriaeth ddiwygiedig ynglŷn â TWE, sydd, ymhlith pethau eraill, yn golygu na fydd yn ofynnol mwyach i gyflogwyr gwblhau eitemau 111 i 117 o restr wirio'r adroddiad terfynol ar eu Crynodeb Taliadau Llawn (FPS) neu Grynodebau o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) ar gyfer blwyddyn dreth.

Daw'r newid hwn i rym ar gyfer adroddiadau TWE a wneir o **6 Mawrth 2015**.

Rydym yn cydnabod na fydd rhai darparwyr meddalwedd cyflogres yn gallu newid eu cynnyrch mewn pryd er mwyn manteisio ar hyn. Os oes amheuaeth, dylai cyflogwyr holi eu darparwr meddalwedd cyflogres i gadarnhau beth yw'r sefyllfa.

Mae'r newid hwn yn golygu, o 6 Mawrth 2015, y bydd CThEM yn derbyn Crynodeb Taliadau Llawn neu Grynodeb o Daliadau'r Cyflogwr am gyfnod o 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2016 gyda **neu** heb restr wirio wedi'i chwblhau.

Mewn achosion lle mae'n rhaid i gyflogwyr gwblhau'r rhestr wirio er mwyn ei gwneud yn bosibl i'w meddalwedd wneud eu cyflwyniad terfynol, dylent sicrhau eu bod yn ei chwblhau'n gywir.

Byddwn yn dileu'r eitemau hyn ar y rhestr wirio o'n Hoffer TWE Sylfaenol mor fuan â phosibl. Noder na fydd hyn yn debygol o ddigwydd cyn mis Gorffennaf 2015.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch adroddiad terfynol am y flwyddyn ar amser o hyd er mwyn osgoi cosb. Gweler yr erthygl ar gosbau ar dudalen 5 a'r canllawiau ynghylch yr hyn sy'n digwydd os na chyflwynwch wybodaeth cyflogres ar amser am fanylion.

## Cyflwyno adroddiadau ynghylch buddiannau a roddir

Nid yw'r penderfyniad i ddileu'r rhestr wirio yn effeithio ar rwymedigaeth cyflogwr i gyflwyno adroddiad ar amser ynghylch:

- yr holl dreuliau a buddiannau a roddir ar ffurflenni P11D a P9D
- swm yr Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A sy'n ddyledus ar yr holl dreuliau a buddiannau a roddir ar ffurflen P11D(b).

Lle na thalwyd unrhyw fuddiannau o 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2015 a derbynnir ffurflen atgoffa P11D(b) neu P11D(b), gall cyflogwyr naill ai:

- gyflwyno ffurflen 'dim i'w ddatgan'
- cwblhau ffurflen *'2014-15 Employer – No return of Class 1A'*.

i'n hysbysu nad oes ganddynt P11D na ffurflen Dosbarth 1A i'w cyflwyno. Bydd y ffurflen 'dim i'w ddatgan' i'w chael ar-lein o 6 Ebrill 2015.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni Treuliau a Buddiannau [ffurflenni P11D, P9D a P11D(b)] yw 6 Gorffennaf 2015. **Osgowch gosbau: hysbyswch ynghylch TWE ar amser.**

## Awgrymiadau ynghylch paratoi eich cyflwyniadau terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben 5 Ebrill 2015

Gyda mis Ebrill yn nesáu, bydd angen i chi ddechrau paratoi ar gyfer eich cyflwyniad TWE terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben 5 Ebrill 2015.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a anfonwch atom mewn sawl ffordd: I gyfrifo hawl unigolion i fudd-daliadau'r wladwriaeth a phensiynau; i adnewyddu Credydau Treth; i gynnal gwiriadau cysoni er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch cyflogeion wedi talu'r symiau cywir o Dreth, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr. Os yw'r wybodaeth sydd gennym yn anghyflawn, efallai na fydd y cyfrifiadau treth a anfonwn at eich cyflogeion yn gywir – neu gallai eu Credydau Treth fod yn anghywir – ac, felly, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi a'ch cyflogeion. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd i gyfrifo hawl unigolion i fudd-daliadau'r wladwriaeth a phensiynau.

Ceir canllawiau ynghylch sut i gyflwyno'r wybodaeth hon yn llwyddiannus ac efallai y bydd yr awgrymiadau canlynol yn ddefnyddiol i chi. Nid yw'r rhestr yn un hollgynhwysfawr, ond mae'n cynnwys rhai nodiadau atgoffa pwysig i chi:

- Dylid anfon eich Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) terfynol 'ar neu cyn' eich diwrnod cyflog olaf yn y flwyddyn dreth - a ddaw i ben ar 5 Ebrill
- Dylai eich FPS terfynol (neu Grynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS)) nodi mai'r 'Cyflwyniad terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth' ydyw – ac mae hynny'n golygu ar gyfer y cynllun TWE cyfan. Cofiwch, os yw eich cynllun yn cynnwys mwy nag un gyflogres – er enghraifft, cyflogres wythnosol ac un fisol – dim ond pan fydd pob un o'r Cyflwyniadau Taliadau Llawn ar gyfer y flwyddyn dreth ar gyfer pob cyflogres arall wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus y dylech nodi eich bod yn anfon y cyflwyniad terfynol.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

- Gallwch gyflwyno EPS terfynol
  - os anghofioch ddweud wrthym ar FPS mai hwn yw'ch cyflwyniad terfynol
  - os na wnaethoch dalu unrhyw un yn ystod cyfnod talu terfynol y flwyddyn
  - os anfonwyd eich cyflwyniad terfynol yn gynnar ac yna ni wnaethoch dalu unrhyw un am fis treth llawn neu fwy am weddill y flwyddyn dreth
- Cofiwch, wrth anfon y cyflwyniad terfynol, eich bod yn cael dewis pellach o ran cwblhau'r cwestiynau a'r datganiad diwedd blwyddyn (yn dibynnu ar eich pecyn meddalwedd). Fodd bynnag, os bydd eich pecyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi wneud hynny – neu os ydych yn dewis eu cwblhau beth bynnag – dylech eu cwblhau'n gywir
- Cofiwch, mae'n bwysig eich bod yn cadw'ch cofnodion TWE ar ôl i chi wneud eich adroddiad terfynol, rhag ofn y bydd angen i chi ddiwygio cyflwyniad ac at ddibenion cydymffurfio.

### Pan fyddwch yn anfon eich cyflwyniad RTI terfynol atom ar gyfer y flwyddyn, bydd gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom

Fodd bynnag, os bydd angen i chi gywiro unrhyw wybodaeth yn eich cyflwyniad terfynol, anfonwch fersiwn diwygiedig o'r Cyflwyniad Taliadau Llawn cyn gynted â phosibl **– ond yn ben dant cyn 20 Ebrill 2015**. Y rheswm dros hyn yw, o'r dyddiad hwnnw, byddwn yn dechrau defnyddio'r wybodaeth ar yr FPS sydd gennym i gyfrifo Treth, Yswiriant Gwladol, Benthyciadau Myfyrwyr a Chredydau Treth cyflogeion. Dylech hefyd nodi unwaith eto mai hwn fydd eich cyflwyniad olaf ar gyfer y flwyddyn dreth. Os dewch o hyd i unrhyw wallau yn eich FPS terfynol ar 20 Ebrill 2015, neu ar ôl hynny, **mae'n rhaid i chi gywiro'r rhain drwy anfon Diweddariad Blwyddyn Gynharach** (EYU) **– os ceisiwch gyflwyno FPS ar neu ar ôl y dyddiad hwn efallai y bydd eich meddalwedd yn anfon neges wall.**

Cofiwch, os bydd angen i chi anfon EYU, dim ond y gwahaniaeth rhwng y symiau a gofnodwyd yn wreiddiol a'r swm cywir ar gyfer y flwyddyn dreth y dylid eu cofnodi. Er enghraifft, pe dylai ffigur a gofnodwyd yn flaenorol fel £1,900 fod wedi'i gofnodi fel £2,300, dylai'r Diweddariad Blwyddyn Gynharach ddangos '£400' – **nid** £2,300. Yn yr un modd, os ydych am leihau ffigur a gofnodwyd yn flaenorol fel, dyweder, £1,000 i £700, dylai'r Diweddariad Blwyddyn Gynharach gofnodi '-£300' – gydag arwydd minws o'i flaen – **nid** £700. Canllawiau pellach ar gywiro gwallau cyflogres

- Os ydych yn defnyddio Offer TWE Sylfaenol CThEM i anfon EYU, mae canllawiau i ddefnyddwyr ar gael.
- Mae gennych tan 31 Mai 2015 i roi Tystysgrif Ddiwedd Blwyddyn P60 i unrhyw gyflogeion a gyflogir gennych ar 5 Ebrill – a chofiwch y gall fod yn gopi electronig yn hytrach na chopi papur. Cael rhagor o ganllawiau yn GOV.UK

# Diweddariadau ar gyfer yr Offer TWE Sylfaenol

Mae diweddariad i'r Offer TWE Sylfaenol ar gael ar wefan GOV.UK. Mae'r fersiwn diweddaraf hwn yn cynnwys diweddariad pwysig i'r cyfleuster Diweddaru Awtomatig ac mae'n rhaid iddo gael ei lawrlwytho a'i osod yn uniongyrchol o wefan GOV.UK.

Os ydych eisoes wedi gosod Offer TWE Sylfaenol dylai'r fersiwn newydd gael ei lawrlwytho'n llawn o hyd. Ni ddylech geisio diweddaru drwy ddewis 'Check for updates/Check now' o fewn Gosodiadau yn y feddalwedd, na newid y gosodiadau hynny. Ni effeithir ar ddata'r gronfa ddata drwy ddiweddaru'r feddalwedd yn y modd hwn. Fodd bynnag, fel yn achos pob diweddariad, rydym yn argymell gwneud copi wrth gefn o unrhyw gronfeydd data cyn mynd ati i lawrlwytho'r diweddariad.

Rydym yn argymell yn gryf y dylai defnyddwyr yr Offer TWE Sylfaenol lawrlwytho'r fersiwn newydd hwn a'u bod yn cwblhau hyn mor fuan â phosibl fel y gellir cymhwyso'r diweddariad, a gaiff ei gyhoeddi ddechrau mis Ebrill, yn awtomatig ar gyfer y flwyddyn dreth yn dechrau 6 Ebrill 2015.

# Ceisiadau am ailargraffiadau o hysbysiadau codio P9 papur

**Rydym wedi dechrau anfon hysbysiadau codio P9 papur y mis hwn a disgwylir i'r broses ddod i ben ar 23 Mawrth 2015 neu tua'r dyddiad hwnnw, ond efallai y byddwch yn dal i dderbyn hysbysiadau mor hwyr â 26 Mawrth.**

Os na fyddwch yn derbyn eich P9 papur erbyn y cyfnod talu cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2015, gallwch ofyn am gopi dyblyg drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900, 08:30 – 17:00, dydd Llun – dydd Gwener.

Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â chynllun cyflogwr llawn y gellir gwneud cais am gopi dyblyg ac nid yw ar gael ar gyfer codau treth unigol. Os bydd angen cod treth arnoch ar gyfer cyflogai unigol ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900.

Byddwn yn ymdrin â'ch cais cyn gynted â phosibl ond dylech ganiatáu 14 diwrnod gwaith cyn cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg eto. Os yw eich cais yn ymwneud â newid math o gyfrwng, (er enghraifft, o bapur i'r rhyngrwyd), dylech ganiatáu pum diwrnod gwaith ychwanegol er mwyn rhoi amser i ni ddiweddaru ein systemau.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

Fel arfer, dim ond am gyfnod o chwe wythnos ar ôl 6 Ebrill y mae ailargraffiadau ar gael, ond gall hyn fod yn gynharach os bydd Cyllideb gan y Canghellor. Os bydd digwyddiad codio o ganlyniad i gyhoeddiadau Cyllidebol, y dyddiad olaf y byddwch yn gallu gwneud cais am ailargraffiad o P9 fydd 2 Mai 2015.

# Osgoi cyflogaethau dyblyg

Cofnodion cyflogaeth ychwanegol yw cyflogaethau dyblyg a grëwyd ar system CThEM sy'n dyblygu cyflogaeth sy'n bodoli eisoes neu sydd wedi dod i ben, a all effeithio ar y canlynol:

- y tâl y mae CThEM yn ei godi ar y cyflogwr gan arwain at weithgarwch diangen ar gyfer casglu dyledion
- codau treth cyflogeion sy'n arwain at godau anghywir sy'n achosi i dreth incwm gael ei didynnu'n anghywir
- TWE, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Benthyciadau Myfyrwyr, proses Credyd Cynhwysol a phrosesau adnewyddu Credydau Treth.

Mae canllawiau llawn ynglŷn â'r hyn y dylech ei gyflwyno ar gael ar GOV.UK.

Mae gwahanol becynnau cyflogres yn rhoi gwahanol lefelau o reolaeth i gyflogwyr ynghylch pa wybodaeth y gallant ei hychwanegu/diweddaru; lle y gallwch wneud hynny, dylid ystyried yr argymhellion canlynol.

### Pan fydd Cyflogai'n dechrau

- Dylid sicrhau bod yr hysbysiad am ddechreuwr yn cynnwys manylion personol cywir y cyflogai er mwyn osgoi diweddaru enw, dyddiad geni neu ryw ar Gyflwyniadau Taliadau Llawn dilynol. Dylech geisio rhoi gwybodaeth gyson bob amser er enghraifft dylid nodi enw fel William Smith bob amser ac ni ddylid cyfeirio ato wedyn fel Bil Smith neu W Smith ar FPS ac EYU diweddarach
- Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn talu cyflogai newydd y dylech nodi dyddiad dechrau a datganiad dechreuwr ar yr FPS. Ni ddylech nodi'r dyddiad dechrau ar unrhyw FPS dilynol
- Ni ddylid hysbysu CThEM am newidiadau i ddyddiadau dechrau ond dylid eu cofnodi ar eich system cyflogres os oes angen hynny ar eich cyflogres.

### Newidiadau i rifau adnabod y gyflogres

- Dylech sicrhau y caiff rhifau adnabod unigryw y gyflogres eu defnyddio yn rhif cyfeirnod TWE y Cyflogwr
- Os oes gan gyflogai fwy nag un gyflogaeth yn y cynllun TWE yna dylid rhoi rhif adnabod unigryw y gyflogres i bob cyflogaeth. Mae mwy nag un gyflogaeth yn golygu ar unrhyw adeg benodol yn y cynllun TWE, felly mae hyn yn cwmpasu cyflogaethau lluosog neu, os bydd cyflogai yn gadael ac yn cael ei ailgyflogi wedyn dylid defnyddio rhif adnabod y gyflogres sy'n wahanol a dylech ddechrau ei wybodaeth am y flwyddyn hyd yn hyn unwaith eto fel 0.00. Ni ddylech ailddefnyddio rhif adnabod y gyflogres blaenorol ar unrhyw adeg
- Dim ond wrth roi gwybod am newidiadau i rif adnabod cyflogres y dylid gosod y dangosydd newid rhif adnabod y gyflogres a dylech sicrhau y caiff yr 'HEN' rif adnabod y gyflogres a'r rhif adnabod y gyflogres 'NEWYDD' eu cofnodi. Ni ddylech gynnwys y dyddiad dechrau gwreiddiol
- Mae canllawiau ar gael os byddwch yn newid meddalwedd cyflogres.

### Pan fydd Cyflogai yn gadael neu ar ôl hynny

- Ni ddylid hysbysu CThEM am newidiadau i ddyddiadau dechrau ond dylid eu cofnodi ar eich system cyflogres os oes angen hynny ar eich cyflogres
- Ni ddylech gyflwyno FPS ar ôl i FPS gael ei gyflwyno yn nodi dyddiad gadael oni bai ei fod yn gywiriad neu'n daliad ar ôl gadael (neu o dan amgylchiadau eithriadol mae canllawiau ar gael yn GOV.UK)
- Mae'n rhaid i daliadau ar ôl gadael a chywiriadau a wneir ar ôl gadael gynnwys y dyddiad gadael gwreiddiol sydd wedi'i gynnwys ar yr FPS a nododd y dyddiad gadael
- Dim ond os ydych wedi rhoi P45 i'ch cyflogai a'ch bod wedi gwneud taliad dilynol y dylech gynnwys y dangosydd taliad ar ôl gadael
- ni ddylech gyflwyno FPS unfath sy'n nodi'r taliad ar ôl gadael oni chaiff eich cyflwyniad gwreiddiol ei wrthod.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Pa bryd y caiff taliad ei wneud at ddibenion TWE?

Er nad yw Gwybodaeth Amser Real wedi newid pa bryd y gwneir taliad, mae'n bwysicach nag erioed deall pryd y caiff taliad ei wneud at ddibenion TWE, pa ddyddiad y dylid ei gynnwys ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn a phryd y dylid anfon y datganiad.

Yn ôl y gyfraith, at ddibenion TWE, trinnir taliad fel un a wnaed

- ar yr adeg y caiff y taliad ei wneud
- ar yr adeg y caiff y person hawl i gael y taliad, pa un bynnag sydd gynharaf.

Y bwriad sy'n sail i'r ddeddfwriaeth yw sicrhau y caiff TWE ei weithredu ar yr adeg gywir ac yn y flwyddyn dreth gywir.

Os bydd y gyfradd dreth yn gostwng, fel y digwyddodd pan ostyngwyd y gyfradd ychwanegol o 50% i 45%, caiff TWE ei weithredu o hyd yn unol â'r ddwy reol hyn. Felly ni all y cyflogai ofyn am gael ei dalu yn y flwyddyn dreth ddiweddarach a thalu llai o dreth, os oedd ganddo hawl gyfreithiol i gael ei dalu yn y flwyddyn dreth gynharach.

### Pa ddyddiad y dylid ei nodi ar y Cyflwyniad Taliadau Llawn (Dyddiad talu: Eitem Ddata 43)?

Diwrnod cyflog rheolaidd y cyflogai y dylid ei nodi fel y dyddiad talu ar yr FPS. I'r rhan fwyaf o gyflogeion dyma'r dyddiad y bydd gan y cyflogai hawl i gael ei dalu a phryd y caiff ei dalu mewn gwirionedd.

Felly, os caiff y cyflogai ei dalu'n hwyr, dylai'r cyflogwr barhau i ddefnyddio'r diwrnod cyflog rheolaidd ar yr FPS lle mae gan y cyflogai hawl i gael ei dalu ar y dyddiad hwnnw. Os byddwch yn talu'r cyflogai'n gynnar, yna golyga hyn y bydd y dyddiad talu yn gynt, a'r dyddiad hwn y dylai'r cyflogwr ei ddefnyddio ar yr FPS.

At hynny, at ddibenion TWE, gwneir taliad pan fydd gan y cyflogai reolaeth dros yr arian a phan fydd yn gallu ei ddefnyddio er ei fudd ei hun, a dylai hyn ddigwydd ar y dyddiad y caiff y cyflogai ei dalu fel arfer.

Felly, os talwch drwy ddull electronig (megis Bacs), gwneir taliad pan fydd yr arian yng nghyfrif y cyflogai a gall ei ddefnyddio. Unwaith eto, disgwylir y bydd gan y cyflogai reolaeth dros ei arian erbyn ei ddyddiad talu rheolaidd a dyna'r dyddiad y dylid ei gofnodi ar yr FPS. Er mwyn sicrhau bod yr arian yng nghyfrif y cyflogai erbyn ei ddyddiad talu rheolaidd, efallai y bydd yn rhaid i chi baratoi cyfarwyddyd trosglwyddo Bacs ar ddyddiad cynharach. Fodd bynnag, dylech gofnodi'r dyddiad y bydd yr arian yn cyrraedd cyfrif banc y cyflogai ar yr FPS a disgwylir y bydd hyn yn digwydd ar y dyddiad talu rheolaidd.

Os telir ag arian parod neu drwy siec, gwneir taliad pan gaiff ei roi i'r cyflogai. Nid oes gwahaniaeth pryd y caiff y siec ei throi'n arian parod neu ei rhoi yn y banc. Felly, y dyddiad i'w gofnodi ar yr FPS yw'r dyddiad y rhoddir y siec neu y telir yr arian parod.

### Os bydd y dyddiad talu rheolaidd yn digwydd ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod bancio

Bydd rhyddhad yn gymwys os bydd dyddiad talu rheolaidd y cyflogai yn digwydd ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod bancio. Ceir hyn ar dudalen 9 o'r CWG2 ar hyn o bryd.

Mae'n esbonio pryd y dylech wneud eich cyflwyniadau os bydd y diwrnod talu rheolaidd yn digwydd ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod bancio (dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc) ac o ganlyniad, rydych yn gwneud taliad

- ar y diwrnod gwaith olaf cyn y diwrnod talu rheolaidd, neu
- ar y diwrnod cyflog sy'n ddiwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod talu rheolaidd.

Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod TWE yn gweithredu fel arfer fel y bydd y cyflogai yn derbyn y lwfansau y mae ganddo'r hawl iddynt ac y dyrennir y taliad i'r cyfnod talu cywir neu'r flwyddyn dreth gywir.

At ddibenion TWE, gellir trin y taliad fel un sydd wedi cael ei wneud ar y diwrnod talu rheolaidd a dyna'r dyddiad y dylid ei gofnodi ar yr FPS fel y 'dyddiad talu'.

Un enghraifft bwysig lle y gallai hyn fod yn gymwys yw diwedd y flwyddyn dreth, sy'n digwydd dros ŵyl banc y Pasg.

Er enghraifft:

- os yw'r **dyddiad talu rheolaidd** ar 3, 4, 5 neu 6 Ebrill ond
- mai 2 Ebrill yw'r **dyddiad talu gwirioneddol**

cofnodwch y taliad fel un sy'n cael ei wneud ar 3, 4, 5 neu 6 Ebrill fel y bo'n briodol.

Cofiwch fod dyddiad talu rheolaidd o 6 Ebrill yn digwydd yn y flwyddyn dreth ddilynol;

Yn yr un modd:

- os mai 6 Ebrill yw'r **dyddiad talu rheolaidd**, ond
- mai 7 Ebrill yw'r **dyddiad talu gwirioneddol**

gallwch gofnodi'r taliad fel un a wneir ar y dyddiad talu rheolaidd.

Gan mai 7 Ebrill yw'r dyddiad talu gwirioneddol, yna os byddwch yn anfon eich FPS ar y dyddiad hwnnw, cofiwch ddefnyddio cod cofnodi'n hwyr G.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio codau cofnodi'n hwyr yn yr adran ***Late reporting reason*** o'r canllawiau *What Payroll Information to report*.

Wedi'i archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

**Yswiriant Gwladol**

O ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol, mae'n rhaid i'r taliad gael ei drin fel un sydd wedi cael ei wneud yn rheolaidd, os yw'r diwrnod talu gwirioneddol a'r diwrnod talu rheolaidd yn digwydd yn yr un flwyddyn dreth.

Os yw'r dyddiad talu gwirioneddol a'r dyddiad talu rheolaidd yn digwydd mewn blwyddyn dreth wahanol gellir trin y taliad fel un sydd wedi cael ei wneud yn rheolaidd hefyd.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau TWE ac Yswiriant Gwladol o ran hyn cyn hir.

# Rheolau newydd os ydych yn ariannu triniaeth feddygol i helpu cyflogai i ddychwelyd i'r gwaith

Daeth eithriad newydd i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol i rym ar 1 Ionawr. Mae'n gymwys pan fydd cyflogwr yn ariannu triniaeth feddygol i helpu cyflogai i ddychwelyd i'r gwaith, ar yr amod y caiff amodau penodol eu bodloni.

Mae'r eithriad yn cwmpasu triniaeth feddygol am hyd at gost o £500 mewn blwyddyn dreth fesul cyflogai. Bydd unrhyw gostau am driniaeth feddygol sy'n fwy na'r swm hwn yn agored i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y ffordd arferol.

Yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys yw:

1. Cyn i'r argymhelliad ar gyfer triniaeth feddygol gael ei wneud mae'n rhaid bod y cyflogai naill ai:
   - wedi cael ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel bod yn unigolyn nad yw'n ffit i weithio, neu fod disgwyl na fydd yn ffit i weithio, oherwydd anaf neu salwch am o leiaf 28 diwrnod yn olynol
   - yn absennol o'r gwaith oherwydd anaf neu salwch am o leiaf 28 diwrnod yn olynol
2. Os gwneir yr argymhelliad i'r cyflogai gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o wasanaethau iechyd galwedigaethol a ddarperir i'r cyflogai naill ai o dan Ffit i Weithio, a gaiff ei gyflwyno dros gyfnod o fisoedd, neu o dan drefniadau a wneir gan gyflogwr.
3. Os gwneir yr argymhelliad er mwyn helpu'r cyflogai i ddychwelyd i'r gwaith
4. Os yw'r argymhelliad:
   - yn ysgrifenedig,
   - wedi'i wneud i'r cyflogwr a'r cyflogai,
   - yn nodi'r driniaeth feddygol a argymhellir.

Mae asesiad nad yw cyflogai yn ffit i weithio yn cynnwys asesiad y gall fod yn ffit i weithio cyn belled â bod y cyflogwr yn gwneud trefniadau i'w alluogi i ddychwelyd i'r gwaith, ar yr amod nad yw'r cyflogai yn dychwelyd i'r gwaith cyn i argymhelliad ar gyfer triniaeth feddygol gael ei wneud.

At ddibenion yr eithriad, mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymarferydd meddygol cofrestredig, yn nyrs gofrestredig, neu'n therapydd galwedigaethol, yn ffisiotherapydd neu'n seicolegydd sydd wedi'i gofrestru â chorff rheoleiddio perthnasol.

Ceir rhagor o ganllawiau yn y Llawlyfr Incwm Cyflogaeth

# Cynnydd yn nhrothwy Benthyciadau Myfyrwyr sy'n gymwys o 6 Ebrill 2015

Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi cadarnhau y bydd trothwy benthyciadau myfyrwyr yn cynyddu gan 2.5% i £17,335 o 6 Ebrill 2015. Bydd y ffigur hwn yn gymwys i bob benthyciwr cyfredol y mae cyflogwyr yn gwneud didyniadau Benthyciad Myfyriwr ar ei gyfer.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cosbau cyflwyno yn dechrau ar 6 Mawrth 2015 ar gyfer cynlluniau TWE sy'n cynnwys 49 neu lai o gyflogeion

O 6 Mawrth 2015, gall pob cyflogwr gael cosb am bob mis treth pan fydd un neu fwy o adroddiadau TWE amser real ar gyfer cynllun yn hwyr.

Er nad ydym fel arfer yn codi cosb am y mis cyntaf ym mhob blwyddyn dreth pan gyflwynwch adroddiad yn hwyr, nid yw hyn yn gymwys i adroddiadau hwyr o 6 Mawrth i 5 Ebrill 2015 (mis treth 12) ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys llai na 50 o gyflogeion: dim ond o 6 Ebrill 2015 ymlaen y bydd yn gymwys. Ar gyfer y cynlluniau hyn codir cosb os cyflwynir adroddiad yn hwyr, neu ddim o gwbl, ar gyfer Mis 12, gan mai hwn yw'r cyfnod hysbysu terfynol ar gyfer y flwyddyn.

### Awgrymiadau ynglŷn â sut i osgoi cosbau diangen

- Cofnodwch TWE ar amser drwy anfon Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) ar neu cyn y dyddiad talu cynharaf a nodir arno

  Cofiwch yn benodol fod yn rhaid i bob adroddiad ar gyfer mis treth 12 2014-15 gael ei ddychwelyd erbyn yr un dyddiadau cau â gweddill y flwyddyn: nid yw'r dyddiad cyflwyno, sef 19 Mai ar ôl diwedd y flwyddyn dreth yn gymwys mwyach
- Os ydych yn anfon eich cyflwyniad ar ôl unrhyw un o'r dyddiadau talu a nodir arno gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r cod sy'n rhoi'r rheswm dros gofnodi'n hwyr os yw'n briodol. Er enghraifft, os bydd angen ailgyflwyno FPS oherwydd anhawster TG, cadarnhewch a yw unrhyw rai o'r taliadau a gofnodwyd yn methu â bodloni'r rhwymedigaeth 'ar neu cyn' mwyach ac, os felly, ystyriwch hawlio 'esgus rhesymol' yn y maes cysylltiedig Rheswm dros Gofnodi'n Hwyr. Efallai y bydd angen hefyd i chi ddefnyddio'r cod ar gyfer rheswm dros gofnodi'n hwyr **hyd yn oed os ydych wedi cofnodi popeth ar amser**, ond y caiff yr FPS ei anfon ar ôl y dyddiad talu, er enghraifft am eich bod yn gwneud cywiriad, neu mai cyflogwr bach neu ficro-gyflogwr ydych, sy'n manteisio ar y rhyddhad rhag cyflwyno adroddiad misol.

Am ragor o wybodaeth gweler yr adran 'Late reporting reason' o'r canllawiau ***What payroll information to report to HMRC.***

- Anfonwch Grynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) erbyn y 19 eg o'r mis:
  - os nad ydych yn talu unrhyw un yn ystod y mis treth.
  - os byddwch yn cael cyfnod o anweithgarwch ac na fyddwch yn cyflwyno adroddiad am sawl mis hyd yn oed os ydych wedi cyflwyno FPS terfynol yn gynharach yn y flwyddyn.
- Os ydych yn defnyddio darparwr gwasanaeth cyflogres neu asiant i gynnal eich cyflogres, rhowch y wybodaeth am eich cyflogres iddynt mewn da bryd i fodloni'r dyddiad cau ar gyfer adroddiadau
- Rhowch wybod i ni os bydd unrhyw newidiadau yn eich busnes neu'ch arferion cyflogres sy'n golygu na fyddwn yn derbyn yr adroddiadau y byddem fel arfer wedi'u disgwyl, er enghraifft:
  - rydych yn newid nifer y cyflogresi neu pa mor aml rydych yn talu'ch cyflogeion, er enghraifft newid o daliadau wythnosol i fisol – am fanylion, gweler y canllawiau Running payroll: changing paydays
  - mae'r cynllun TWE wedi dod i ben bellach ac nid ydych yn talu unrhyw un mwyach – gweler y canllaw Stop being an employer am fanylion ynglŷn â'r hyn y dylech ei wneud.

**Rhagolwg:**

### Hysbysiadau cosb ac apeliadau

Byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau ar ddiwedd mis Mai 2015 am gosbau a roddir yn ystod y cyfnodau:

- rhwng 6 Ionawr a 5 Ebrill 2015 i gynlluniau sydd â 50 neu fwy o gyflogeion
- rhwng 6 Mawrth a 5 Ebrill i gynlluniau sydd â 49 neu lai o gyflogeion.

Gall y cosbau fod rhwng £100 a £400 y mis, yn dibynnu ar nifer y cyflogeion yn y cynllun.

Gellir cyflwyno apêl ar-lein neu'n ysgrifenedig, a chaiff ei hystyried yn union yr un fordd, pa ddull bynnag a ddefnyddiwch. Fodd bynnag, byddwn yn gallu prosesu'ch apêl yn gyflymach os caiff ei chyflwyno ar-lein. Dim ond ar ôl i hysbysiad ynghylch cosb gael ei gyhoeddi y gellir cyflwyno apêl, **ac ni ellir** gwneud hynny dros y ffôn.

Ceir manylion llawn am gyflwyno apeliadau yn rhifyn 51 o Fwletin y Cyflogwr ac ar ein tudalen ganllaw What happens if you don't report payroll information on time

### Cosbau pellach am gyflwyno'n hwyr

Os bydd FPS yn hwyr am dri mis neu fwy, gallwn godi cosb arall o 5% o'r dreth/cyfraniadau Yswiriant Gwladol a fyddai wedi cael eu talu pe bai'r wybodaeth a roddir wedi cael ei hanfon ar amser. Dim ond ar gyfer y methiannau mwyaf difrifol a mynych y byddwn yn codi'r gosb hon.

### Cosbau am dalu'n hwyr

Bydd cosbau yn y flwyddyn am dalu'n hwyr yn dechrau o 6 Ebrill 2015.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Dod â Chontractio Allan i ben

### Dileu'r Pwynt Croniad Uchaf a newid mewn bandiau enillion o fis Ebrill 2016

O fis Ebrill 2016 bydd cyflogwyr a chyflogeion a gontractiwyd allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion yn talu cyfradd safonol cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn lle cyfradd wedi'i chontractio allan is cyfraniadau Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, o fis Ebrill 2016 ni fydd llythyrau categori D, E, L, N nac O Yswiriant Gwladol ar gael mwyach i'w defnyddio ac ni fydd angen i gyflogwyr gofnodi enillion rhwng y Trothwy Sylfaenol a'r PCU.

### Cofnodi gwybodaeth am Rif Cynllun Wedi'i Gontractio Allan (SCON) – 2 fis nes bod SCON dros dro wedi'i ddiddymu.

Os ydych yn cyflwyno'ch Crynodeb o Daliadau Llawn (FPS) drwy ddefnyddio'r SCON dros dro byddwch wedi cael neges Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS) yn eich hysbysu bod yn rhaid i chi gymryd camau i gael a defnyddio'r SCON cywir. Fe gewch neges GNS arall bob tro y byddwch yn anfon FPS gyda SCON Dros Dro.

Yn ychwanegol at y neges GNS rydym yn monitro'r defnydd o SCON Dros Dro ac os byddwch yn parhau i ddefnyddio hwn byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch hysbysu bod yn rhaid i chi gymryd camau nawr er mwyn cael a defnyddio'ch SCON(au) cywir cyn mis Ebrill 2015.

Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r SCON Dros Dro ar eich FPS o fis Ebrill 2015. **Os byddwch yn ceisio** defnyddio'r SCON Dros Dro ar eich FPS ar gyfer y flwyddyn dreth yn dechrau 6 Ebrill 2015 caiff ei wrthod. Gallai oedi cyn cyflwyno'r FPS arwain yn y pen draw at gosbau am gyflwyno'n hwyr felly mae'n rhaid i chi gymryd camau nawr er mwyn cael a defnyddio'r SCON(au) cywir.

Mae'r SCON cywir i'w weld ar eich tystysgrif contractio allan neu drwy gysylltu â gweinyddwr eich cynllun pensiwn. Mae cofnodi'r SCON cywir yn hanfodol gan fod angen y wybodaeth hon arnom er mwyn cau cyfnodau agored o gyflogaeth wedi'i chontractio allan yn awtomatig a darparu gwybodaeth i gynlluniau pensiwn ac i unigolion ar ôl i gyfnod o gontractio allan ddod i ben.

### Countdown Bulletin

Mae'r rhifyn diweddaraf o'r Countdown Bulletin ar gael bellach.

### Esbonio newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth – Cyflwyno Pecyn Cymorth Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Pensiwn y Wladwriaeth, gyda chanllawiau a deunydd hyrwyddo er mwyn helpu i gyflogwyr roi gwybod am y newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth a gyflwynir ym mis Ebrill 2016.

O fis Ebrill 2016 caiff y Pensiwn y Wladwriaeth cyfredol ei ddisodli gan system symlach newydd. Nod y Pensiwn y Wladwriaeth newydd yw rhoi mwy o eglurder i bobl ynglŷn â'r hyn y byddant yn ei gael gan y Wladwriaeth ar ôl ymddeol a bydd yn effeithio ar bawb sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth gywir, mae DWP wedi casglu ynghyd deunydd er mwyn llunio pecyn cymorth at ddefnydd cyflogwyr.

Mae'r pecyn cymorth yn dwyn ynghyd gwybodaeth syml y gellir ei lawrlwytho am bob un o'r newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth gan gynnwys:

- saith taflen ffeithiau
- dau fideo
- chwe astudiaeth ffeithluniau a ffotograffau
- canllaw cyffredinol 'State Pension explained'
- canllawiau i gyflogwyr ac ymddiriedolwyr ar ddiwedd cyfnod o gontractio allan

Rydym yn annog cyflogwyr i lawrlwytho a defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i esbonio'r newidiadau i'w cyflogeion.

Ymhlith y pynciau a drafodir yn y pecyn cymorth mae'r canlynol: Pensiwn y Wladwriaeth presennol, Pensiwn y Wladwriaeth newydd a sut y caiff ei gyfrifo, Swm Atodol Pensiwn y Wladwriaeth, gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer yr hunangyflogedig, contractio allan, ac Yswiriant Gwladol.

Caiff y pecyn cymorth ei ddiweddaru'n rheolaidd drwy ychwanegu cynhyrchion newydd. Yn yr wythnosau sydd i ddod, caiff taflen ffeithiau ar Bensiwn y Wladwriaeth deilliedig ac etifeddol ei hychwanegu ac esboniad ynghylch y termau a ddefnyddir.

Mae DWP am gael adborth ar y cynhyrchion yn y pecyn cymorth, felly a wnewch chi anfon sylwadau a cheisiadau am gynnwys yn y dyfodol at nicholas.denton@dwp.gsi.gov.uk

At hynny, gall unrhyw un 55 oed a hŷn gael datganiad personol am Bensiwn y Wladwriaeth sy'n rhoi amcangyfrif o faint y gallent ei gael o dan y Pensiwn y Wladwriaeth newydd. Bydd yr amcangyfrif yn seiliedig ar eu cofnod YG cyfredol. Gall unigolion gael datganiad drwy ffonio Canolfan Bensiynau Newcastle (Futures Group) ar 0345 3000168 neu drwy lawrlwytho'r cymhwysiad.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Mân Fuddiannau – Newidiadau Arfaethedig

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu creu eithriad treth newydd ar gyfer mân fuddiannau. Ar yr amod y caiff y *Finance Bill* Gydsyniad Brenhinol, bwriedir i'r newid fod yn weithredol o 6 Ebrill 2015.

Os oes gennych gytundeb â CThEM ar hyn o bryd sy'n caniatáu i chi drin rhai buddiannau fel rhai mân, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn gan na fydd eich cytundeb yn ddilys mwyach.

O 6 Ebrill 2015 bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw fuddiant rydych yn ei drin fel un mân yn bodloni'r diffiniad a'r meini prawf newydd

Bydd rhagor o fanylion am yr eithriad newydd o ran mân fuddiannau yn rhifyn mis Ebrill o Fwletin y Cyflogwr.

---

# Ydych chi'n cyflogi unrhyw un o dan 21 oed? Paratowch ar gyfer mis Ebrill

Ym Mwletin y Cyflogwr ym mis Hydref nodwyd gennym na fydd yn rhaid i gyflogwyr sydd â chyflogeion o dan 21 oed dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 eilaidd ar enillion hyd at y Trothwy Eilaidd Uwch (UST) ar gyfer y cyflogeion hynny mwyach. Daw hyn i rym o 6 Ebrill 2015 felly byddwch yn barod i newid llythrennau Categori YG y cyflogeion hynny o dan 21 oed er mwyn sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir o gyfraniadau YG.

Mae'r adran Abolition of employer National Insurance contributions for under 21s ar wefan GOV.UK wedi cael ei diweddaru ac mae'n cynnwys canllawiau manylach i gyflogwyr bellach, ynghyd â manylion am y llythyrau categori a'r cyfraddau newydd.

Peidiwch â thalu gormod i ni ym mis Ebrill! ♦

# Lwfans Cyflogaeth – ydych chi wedi hawlio eto?

Mae dros 850,000 o fusnesau ac elusennau ledled y DU yn elwa o'r Lwfans Cyflogaeth ers iddo ddod i rym ym mis Ebrill y llynedd.

Gall busnesau ac elusennau cymwys ostwng eu biliau cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 y Cyflogwr gan hyd at £2,000 y flwyddyn drwy hawlio'r Lwfans Cyflogaeth.

Mae bron bob cyflogwr sy'n talu cyfraniadau YG Dosbarth 1 yn gymwys i gael y Lwfans Cyflogaeth.

Ar ôl i chi hawlio'ch Lwfans Cyflogaeth ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaw i ben 5 Ebrill 2015, mae'n gymwys yn awtomatig ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, oni fyddwch yn hysbysu CThEM fel arall.

Felly, os ydych eisoes yn ei hawlio, nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau i'w hawlio o fis Ebrill 2015.

Os nad ydych wedi hawlio'ch Lwfans Cyflogaeth eto, neu os mai cyflogwr newydd ydych ar gyfer 2015 mae amser i wneud hynny o hyd.

Mae hawlio'r Lwfans Cyflogaeth yn hawdd. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cadarnhau a ydych yn gymwys ac yna ei hawlio drwy'ch cyflogres.

Mae hyn mor syml â thicio blwch neu rywbeth tebyg, gan ddibynnu ar eich meddalwedd cyflogres.

### Lwfans Cyflogaeth i gyflogwyr gweithwyr gofal a chymorth

O fis Ebrill 2015, caiff Lwfans Cyflogaeth cyfraniadau YG ei ymestyn hefyd i unigolion sy'n cyflogi gweithwyr gofal a chymorth penodol. Golyga hyn y bydd teulu yn gallu cyflogi gweithiwr gofal ar gyflog o hyd at £22,500 heb dalu unrhyw gyfraniadau YG cyflogwr. Bydd aelwydydd yn cyflogi staff i ofalu am blant a chymorth domestig arall yn dal i fod wedi'u heithrio rhag hawlio'r Lwfans. Os ydych yn cyflogi gweithiwr gofal a chymorth ar hyn o bryd, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth eto. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn agosach at yr amser.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Diwrnodau cyflog 'ychwanegol' (wythnos 53, 54 neu 56) a thandaliadau treth

**Os ydych yn gweithredu cyflogres wythnosol, pythefnosol neu bedeirwythnosol ac mai diwrnod cyflog olaf y flwyddyn dreth hon yw 5 Ebrill 2015, mae'n bosibl y bydd eich cyflogeion yn tandalu treth ar gyfer y flwyddyn dreth hon. Mae'n bwysig eich bod yn esbonio hyn i bob un o'ch cyflogeion y gallai hyn effeithio arnynt.**

Gall diwrnod cyflog 'ychwanegol' ddigwydd am fod y flwyddyn galendr yn cynnwys 52 o wythnosau a diwrnod (neu ddau ddiwrnod mewn blwyddyn naid) ac mae'n bosibl i'r rhai a delir yn wythnosol ac ati gael cyfnod cyflog ychwanegol (53 o wythnosau er enghraifft) am ei fod yn digwydd ar y dyddiad cyflog terfynol yn y flwyddyn honno. Yn yr achosion hyn mae ein canllawiau yn nodi y dylai'r cyflogai gael cyfran 'ychwanegol' o'i Lwfans Personol (cyflog di-dreth) yn ei gyflog gros ar gyfer y cyfnod cyflog terfynol hwnnw. Rhoddir y lwfansau ychwanegol hyn er mwyn diogelu lefel y cyflog clir a gaiff y cyflogai yn y cyfnod cyflog ychwanegol hwnnw er mwyn osgoi caledi ariannol.

Fodd bynnag, gall arwain at dandaliad o dreth ar gyfer y flwyddyn gyfan y byddwn yn ei adennill yn ddiweddarach oddi wrth y cyflogai. Bydd y Nodiadau P800 sydd wedi'u hamgáu â'r Cyfrifiad Treth P800 yn esbonio iddynt sut y caiff unrhyw dandaliad ei gasglu a cheir rhagor o wybodaeth yn GOV.UK

Cyfeirir at y diwrnodau talu 'ychwanegol' fel Wythnos 53 (os telir yn wythnosol), Wythnos 54 (os telir yn bythefnosol) ac Wythnos 56 (os telir yn bedairwythnosol). Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau wythnos 53 ar dudalen 106 o'r Employer Further Guide to PAYE and NICs

# Newidiadau i'r ffordd y rhoddir llyfrynnau slip talu

Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn talu CThEM drwy'r dulliau talu electronig mwy diogel a chyflym erbyn hyn. Yn unol â'r newid parhaus i weithredu'n ddigidol, byddwn yn rhoi'r gorau'n awtomatig i roi llyfrynnau slip talu i gyflogwyr newydd o fis Ebrill 2015.

Mae cyflogwyr newydd yn cael llythyr sy'n rhoi cofrestriad cyflogwr a rhifau cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon iddynt. O fis Ebrill 2015 bydd y llythyr hwn hefyd yn darparu gwybodaeth berthnasol am dalu CThEM drwy ddull electronig a bydd hefyd yn cynnwys cysylltiad i'r cyngor ynghylch talu ar GOV.UK

Mae taliadau electronig yn cynnwys bancio ar-lein neu dros y ffôn, Faster Payments, CHAPS, Bacs, cardiau debyd neu gredyd ar-lein (BillPay) a Debyd Uniongyrchol.

Os na allwch dalu drwy ddull electronig, gallwch ofyn am lyfryn slip talu drwy gysylltu â'n llinell gymorth ar gyfer ymholiadau ynglŷn â thaliadau. Fel arfer bydd llyfryn yn cyrraedd o fewn tair wythnos. Os bydd angen slip talu yn y cyfamser, gellir defnyddio slip talu amnewid wrth wneud taliadau drwy'r post, ond ni ellir ei ddefnyddio yn Swyddfa'r Post, mewn banc nac mewn cymdeithas adeiladu.

Bydd y rhai sy'n cael llyfryn slip talu ar hyn o bryd yn derbyn y llyfryn yn y ffordd arferol cyhyd â'u bod yn parhau i wneud taliadau drwy ddefnyddio'r slipiau talu. Os defnyddir unrhyw un o'r dulliau talu electronig a ddisgrifir uchod ni chaiff llyfrynnau talu eu rhoi eto yn y dyfodol.

Er mwyn atal taliadau llog a chosbau am dalu'n hwyr mae'n bwysig sicrhau bod CThEM yn cael taliad yn llawn ac ar amser. Nid yw gohirio taliad am nad oes gennych ddiffyg slip talu yn esgus rhesymol gan fod dulliau talu eraill ar gael yn gyffredinol.

# Cyfraddau Taliadau Statudol Newydd

Cyhoeddwyd cyfraddau safonol newydd Taliadau Statudol ar gyfer y flwyddyn dreth yn dechrau 6 Ebrill 2015 ar 4 Rhagfyr.

Bydd cyfradd dalu Tâl Salwch Statudol yn cynyddu o £87.55 i £88.45.

Bydd cyfradd safonol Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Thâl Tadolaeth Statudol yn cynyddu o £138.18 i £139.58.

Bydd cyfradd newydd o £139.58 hefyd ar gyfer Tâl Rhieni ar y Cyd Statudol.

Bydd y trothwy enillion ar gyfer hawl i bob Tâl Statudol yn cynyddu o £111 i £112.

Nid yw'r cyfraddau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd eto ond ni ddisgwylir iddynt newid. Ceir manylion llawn am yr holl gyfraddau budd-daliadau a phensiwn ar gyfer 2015-16 yn GOV.UK. Bydd y gyfradd gyffredinol lle y gall cyflogwyr adennill Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol a Thâl Rhieni ar y Cyd Statudol gan CThEM yn ddigyfnewid, sef 92%.

Bydd cyflogwyr bach yn parhau i allu adennill 100% ynghyd â chyfradd ddigolledu ychwanegol. Bydd y gyfradd ddigolledu ychwanegol yn ddigyfnewid, sef 3%.



Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Dyddiad cau ar gyfer talu drwy ddull electronig ar benwythnos

Ym mis Chwefror a mis Mawrth bydd y dyddiad cau ar gyfer talu drwy ddull electronig, sef yr 22ain ar ddydd Sul. Felly, er mwyn sicrhau bod eich taliad ar gyfer y mis hwnnw yn ein cyrraedd ar amser, bydd angen i chi drefnu bod arian wedi'i glirio yng nghyfrif CThEM erbyn yr 20fed oni allwch drefnu talu drwy gyfrwng y Gwasanaeth Talu'n Gyflymach.

Cofiwch, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich taliadau'n cael eu gwneud ar amser ac os bydd eich taliad yn hwyr efallai y codir cosb arnoch.

Er mwyn sicrhau eich bod yn gwybod pryd y dylech ddechrau'r broses dalu a bod y taliad yn ein cyrraedd ar amser, bydd angen i chi siarad â'ch banc/cymdeithas adeiladu ymhell cyn gwneud eich taliad er mwyn cadarnhau trafodyn sengl, terfynau gwerth dyddiol ac amseroedd terfynol.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael am ein talu drwy ddull electronig

# Ydyn ni wedi cysylltu â chi ynglŷn â'ch cyfeirnod talu TWE?

Rydym wedi bod yn ffonio neu'n ysgrifennu at lawer o'n cwsmeriaid sydd wedi defnyddio cyfeirnod anghywir i dalu eu treth a/neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Y rheswm dros wneud hyn yw helpu i sicrhau eich bod yn gwybod beth yw fformat cywir y cyfeirnod i'w ddefnyddio ar gyfer taliadau TWE. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at daliadau yn mynd yn syth i mewn i'ch cyfrif yn y dyfodol ac na fydd angen i ni gysylltu â chi ynglŷn â hyn eto.

Os talwch ar amser, y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw defnyddio'ch Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon sy'n cynnwys 13 cymeriad.

Ond os ydych yn un o'r nifer fach sy'n talu CThEM yn eithriadol o gynnar neu hwyr, hynny yw, mwy na 14 diwrnod cyn bod eich taliad yn ddyledus neu 14 diwrnod ar ôl hynny, bydd angen i chi ychwanegu pedwar digid arall at ddiwedd eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon er mwyn ein hysbysu am y flwyddyn dreth a'r mis treth rydych am wneud taliad ar ei chyfer/gyfer, felly caiff eich taliad ei ddyrannu'n gywir.

Er enghraifft, ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2015, i dalu Mis **09** a oedd yn ddyledus ar 22 Ionawr 2015, ychwanegwch 1509 at eich cyfeirnod. Os mai 123PA00012345 yw eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon, byddech yn defnyddio 123PA000123451509. Mae'r ffigur 15 yn dweud wrthym mai ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaw i ben 4 Ebrill 2015 y mae'r taliad, ac mae'r ddau ddigid olaf yn dweud wrthym ar gyfer pa fis treth y mae'r taliad. Ceir rhagor o gyngor ar ein tudalennau gwe www.gov.uk/pay-paye-tax a www.gov.uk/dealing-with-hmrc/paying-hmrc

Cofiwch eich bod yn gallu talu'r cyfanswm sy'n ddyledus fel un swm; nid oes angen anfon taliadau ar wahân ar gyfer Treth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, cyfraniadau Benthyciadau Myfyrwyr na CIS.

# Gwasanaeth talu ar-lein newydd

Mae CThEM yn creu gwasanaethau digidol a fydd yn helpu ein cwsmeriaid i reoli eu materion treth a'u taliadau ar-lein.

Rydym yn cyflwyno gwasanaeth talu ar-lein er mwyn gwella profiad ein cwsmeriaid wrth iddynt ddelio â CThEM ac integreiddio ein gwasanaethau â'n cyflenwyr bancio a thalu yn well.

Ar 15 Rhagfyr, dechreuodd rhai cwsmeriaid sy'n talu eu bil Hunanasesu neu TAW drwy gerdyn debyd ddefnyddio fersiwn beta o'r gwasanaeth talu ar-lein newydd. Mae'r cwsmeriaid hyn yn defnyddio sgrin talu newydd, a weithredir gan Worldpay, er mwyn cwblhau eu taliad.

Gallwch bellach, fel cwsmeriaid, ddefnyddio'r gwasanaeth newydd drwy GOV.UK;

- i dalu'ch bil Hunanasesiad
- i dalu'ch bil TAW.

Bydd y gwasanaeth Billpay presennol, a weithredir gan Santander, yn parhau i fod ar gael ar gyfer taliadau cerdyn credyd a debyd ar-lein eraill.

Rydym yn defnyddio adborth cwsmeriaid i wella'r gwasanaeth dros amser. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn datblygu'r gwasanaeth newydd i dderbyn taliadau ar gyfer mathau eraill o dreth, gan gynnwys TWE Cyflogwyr a hefyd taliadau cerdyn credyd.

Bydd y gwasanaeth talu ar-lein yn disodli Billpay ar gyfer pob math o daliad cerdyn debyd a chredyd ar-lein yn y pen draw.

# Taliadau Statudol

## Newidiadau i absenoldeb a thâl mabwysiadu

Mae'r Llywodraeth yn dileu'r cyfnod cymhwyso ar gyfer absenoldeb mabwysiadu statudol. O fis Ebrill 2015 bydd cyflogeion cymwys yn gallu cael cyfnod absenoldeb mabwysiadu statudol o ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth (h.y. daw yn 'hawl diwrnod 1' fel absenoldeb mamolaeth).

Caiff mabwysiadwyr sy'n gymwys i gael tâl mabwysiadu statudol eu talu ar y gyfradd sy'n gysylltiedig ag enillion yn ystod y chwe wythnos gyntaf. Yn ystod y 33 wythnos sy'n weddill cânt eu talu ar y gyfradd sy'n gysylltiedig ag enillion neu'r gyfradd unffurf (sef £138.18 yr wythnos ar hyn o bryd) pa un bynnag sydd isaf – gan efelychu'r trefniadau ar gyfer absenoldeb a thâl mamolaeth statudol. Cyfrifir y gyfradd sy'n gysylltiedig ag enillion fel 90% o enillion wythnosol arferol y mabwysiadwr yn y cyfnod o wyth wythnos hyd at y dyddiad y caiff y mabwysiadwr ei hysbysu ei fod wedi cael ei baru â phlentyn.

## Bydd grwpiau newydd o rieni yn gymwys i gael cyfnod o absenoldeb â thâl

Pan ddisgwylir i'w baban gael ei eni ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015, gall y darpar rieni mewn trefniant â dirprwy fam fod yn gymwys i gael absenoldeb a thâl mabwysiadu lle maent yn bwriadu gwneud cais am Orchymyn Rhiant ar gyfer eu plentyn o dan yr *Human Embryology and Fertilisation Act 2008* ac yn disgwyl ei gael (neu maent wedi'i gael eisoes).

Gall darpar fabwysiadwyr, hynny yw, unigolion sydd wedi cael eu cymeradwyo'n rhai addas i fabwysiadu plentyn, fod yn gymwys i gael absenoldeb a thâl mabwysiadu lle mae awdurdod lleol wedi lleoli plentyn gyda hwy i'w faethu gyda'r bwriad y byddant yn mabwysiadu'r plentyn hwnnw. Er mwyn bod yn gymwys i gael absenoldeb a/neu dâl mabwysiadu mae'n rhaid i'r plentyn gael ei baru â'r darpar fabwysiadwr (a fydd o bosibl yn mynd yn ei flaen i fabwysiadu'r plentyn) ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015.

Gall partner y prif fabwysiadwr ac un o rieni'r Gorchymyn Rhiant fod yn gymwys i gael absenoldeb â thâl tadolaeth.

## Amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau

O 5 Ebrill 2015 bydd gan gyflogeion cymwys a gweithwyr asiantaeth sydd â 12 wythnos o wasanaeth yr hawl i gael amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau mabwysiadu yn ystod y cyfnod rhwng yr adeg y cânt eu hysbysu eu bod wedi cael eu paru â phlentyn a'r adeg y caiff y plentyn ei leoli gyda'r teulu:

- Mae gan fabwysiadwyr sengl yr hawl i gael amser i ffwrdd â thal ar gyfer hyd at bum apwyntiad mabwysiadu.
- Yn achos mabwysiadwyr ar y cyd (h.y. cwpl sydd wedi cael eu paru ar y cyd i fabwysiadu'r plentyn) bydd gan un o'r mabwysiadwyr yr hawl i gael amser i ffwrdd â thal ar gyfer hyd at bum apwyntiad mabwysiadu. Gallai'r mabwysiadwr arall fod yn gymwys i gael amser i ffwrdd o'r gwaith heb dâl er mwyn mynychu hyd at ddau apwyntiad mabwysiadu.

Lle ceir mabwysiadwyr ar y cyd, ni all y mabwysiadwr a gafodd amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau mabwysiadu hawlio absenoldeb na thâl tadolaeth.

Ar 1 Hydref 2014 cafodd rhieni Gorchymyn Rhiant yr hawl i gymryd gwyliau heb dâl er mwyn eu galluogi i fynd gyda'r ddirprwy fam i hyd at ddau o'i hapwyntiadau cynenedigol. Mae hyn yn amodol ar fodloni meini prawf penodol, gan gynnwys cyfnod cymhwyso o 12 wythnos o wasanaeth lle mae'r rhiant sydd wedi cael Gorchymyn Rhiant yn weithiwr asiantaeth.

## Genedigaethau cynnar

Mae Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd ar gael i rieni cymwys babanod y disgwylir iddynt gael eu geni ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015. Os caiff y baban ei eni'n gynnar bydd y rhieni yn dal i fod yn gymwys i gael Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd ar yr amod y disgwylir i'r baban gael ei eni ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015.

Ni fydd newidiadau TG CThEM i gynnal y broses o roi gwybod am Dâl Rhieni ar y Cyd ar waith tan fis Ebrill 2015. Os oes disgwyl i chi dalu Tâl Rhieni ar y Cyd i gyflogai cyn mis Ebrill yna defnyddiwch y maes ASPP presennol i roi gwybod am unrhyw daliadau a symiau a adenillwyd. Hefyd, os hoffech hawlio arian ymlaen llaw cyn mis Ebrill, yna dylech ddefnyddio ffurflen ar gyfer talu ASPP ymlaen llaw.

## *Work and Families Act (Northern Ireland)*

Mae'r *Work and Families Act (Northern Ireland)* 2015 wedi cael Cydsyniad Brenhinol bellach, ac mae rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gweithredu'r hawliau newydd yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu paratoi er mwyn darparu ar gyfer rhieni y disgwylir i'w plentyn gael ei eni ar neu ar ôl 5 Ebrill eleni. Mae'r Adran Cyflogaeth a Dysgu yng Ngogledd Iwerddon wedi cyhoeddi canllawiau drafft i gyflogwyr.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Datganiad newydd sydd ei angen os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall

O fis Ebrill 2014, newidiodd y Llywodraeth y rheolau ynglŷn â phryd y mae'n rhaid i gyflogwr cyfryngol drin gweithwyr fel eu cyflogeion at ddibenion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol. Os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall yna gellir ystyried eich bod yn gyflogwr cyfryngol ac efallai y bydd y ddeddfwriaeth 'asiantaeth' newydd ynglŷn â Threth Incwm/cyfraniadau YG yn effeithio arnoch.

Caiff Rheoliadau newydd eu cyflwyno ym mis Ebrill 2015 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr cyfryngol penodol gyflwyno datganiad chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch gweithwyr, i CThEM.

Ni fydd angen i bob cyflogwr cyfryngol gyflwyno datganiad. Dim ond os ydych yn gyflogwr cyfryngol sydd â chytundeb â'r cleient terfynol y bydd angen i chi gwblhau datganiad chwarterol. Ni fydd angen i chi ddychwelyd manylion eich gweithwyr eich hun lle mae TWE wedi bod yn weithredol ar incwm cyflogaeth ac wedi cael ei dalu o dan RTI gan y bydd y wybodaeth hon wedi'i chofnodi.

Ond bydd angen i chi gael holl fanylion eraill ynglŷn â gweithwyr gan unrhyw gyflogwyr cyfryngol eraill rydych wedi trefnu cytundeb â hwy i gyflenwi gweithwyr i'r cleient terfynol.

Ceir rhagor o ganllawiau yn GOV.UK.

# Diweddaru cyfeiriadau cyflogeion

Ar hyn o bryd, mae CThEM ond yn derbyn ac yn diweddaru cyfeiriadau cyflogeion gan gyflogwyr ar eu Cyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS) mewn perthynas â'u cyflogeion newydd.

O fis Ebrill 2015 byddwn hefyd yn prosesu newidiadau i gyfeiriadau cyflogeion ar gyfer cyflogeion presennol pan nodwn fod cyfeiriad newydd wedi'i gynnwys ar FPS.

Er nad yw'n ofynnol darparu'r data hwn i CThEM, gobeithiwn y byddwch yn cefnogi'r fenter hon, a fydd yn ein helpu i ddiweddaru cofnodion eich cyflogeion. Gan fod y rhan fwyaf o gyflogeion yn hysbysu eu cyflogwyr pan fyddant yn newid cyfeiriad, hoffem pe baech yn cynnwys y cyfeiriad newydd ar yr FPS newydd a gyflwynwch, os bydd eich meddalwedd yn caniatáu i chi wneud hynny.

Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, fel rheolwyr data bydd angen i chi fodloni'ch hun eich bod yn cydymffurfio â'r *Data Protection Act*. Yn ein barn ni, nid yw'r defnydd hwn o ddata personol yn ormodol.

Credwn hefyd na fyddwch yn torri darpariaethau tegwch yn y Ddeddf drwy anfon manylion cyfeiriadau atom. Mae'n ofynnol i gyflogwyr gyflwyno cyfeiriadau cyflogeion newydd i CThEM. Bydd y rhan fwyaf o gyflogeion fwy na thebyg yn rhagdybio bod cyflogwyr yn dal i anfon gwybodaeth am gyfeiriadau at CThEM, ac felly ni fyddai'r defnydd hwn o'r data yn annisgwyl. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw amheuon y gallai'ch cyflogeion ystyried y defnydd hwn o'u data personol yn annisgwyl, yna bydd angen i chi eu hysbysu o'r newid hwn er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â darpariaethau tegwch y Ddeddf.

# Cofrestru awtomatig: ydych chi'n barod?

Mae cofrestru awtomatig yn gymwys i bob cyflogwr sy'n cyflogi o leiaf un aelod o staff yn y DU. Dengys y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Rheolydd Pensiwn fod mwy na phum miliwn o gyflogeion bellach yn cynilo mwy neu'n cynilo am y tro cyntaf ar ôl cael eu cofrestru'n awtomatig â phensiwn gan eu cyflogwr. Fodd bynnag, mae ymchwil gan y rheolydd wedi dangos bod bron 50% o gyflogwyr a oedd yn meddwl y byddent yn barod erbyn eu dyddiad cychwyn, yn amharod a'u bod wedi gorfod rhuthro ar y funud olaf i fod yn barod. Gall gymryd hyd at 12 mis i baratoi ar gyfer cofrestru awtomatig, felly dylech ddechrau mewn da bryd a chadarnhau pryd y bydd y gyfraith yn gymwys i chi.

Mae cofrestru awtomatig yn awtomatig i'ch staff; nid oes angen iddynt wneud unrhyw beth i gofrestru mewn cynllun pensiwn. Ond nid yw'n awtomatig i chi fel cyflogwr. Cliciwch yma i gael canllaw gam wrth gam sy'n dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn bod yn barod ar gyfer cofrestru awtomatig.

Gall cyflogwyr ymrestru i gael ein gwasanaeth newyddion drwy e-bost er mwyn cael newyddion neu wybodaeth gyfredol a fydd yn eu helpu i baratoi.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.tpr.gov.uk

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

## Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad (ar gyfer cyflogwyr sydd wedi eu heithrio rhag cyflwyno ar-lein)

**Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd**

I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser sy'n gyfleus i chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn [www.gov.uk/business-tax/paye](www.gov.uk/business-tax/paye)

**Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth**

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Gyswllt Cymraeg | **0300 200 1900** | Llun-Gwener 8.30am-5pm<br>Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn. |
| Ffacs | **01766 516100** | |

*Ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac sydd ag offer arbennig fel Minicom, mae'r cyfleuster **Ffôn Testun** ar gael ar **08456 021 380**

**Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod**

**Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth CIS | **08453 667 899** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| Minicom | **08453 667 894** | |

**CYG: Pynciau Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan | **08459 150 150** | Llun-Gwener 8am-5pm |
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU | **08459 154 811** | Llun-Gwener 8am-5pm |

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth Cyflog a Hawliau Gwaith | **0800 917 2368** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 9am-1pm |
| Llinell Archebu | **08458 450 360** | 7 diwrnod yr wythnos 24 awr |

**Llinellau Cymorth Eraill**

| | | |
|---|---|---|
| Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM* | *gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch yr Offer TWE Sylfaenol | |
| Llinell Gymorth | **08456 055 999** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| e-bost | [helpdesk@ir-efile.gov.uk](mailto:helpdesk@ir-efile.gov.uk) | |
| Ymholiadau ynglŷn â thaliadau TWE/Hunanasesiad | **08453 667 816** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |

Os hoffech i CThEM anfon e-bost atoch pan fydd rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr ar gael, ewch i [www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm](www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm)

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio